# **Rhoi Cyfrif am Well Byd:** Prosbectws Polisi ACCA ar gyfer Cymru.

ACCA





# Rhoi Cyfrif am Well Byd: Prosbectws Polisi ACCA ar gyfer Cymru.

**Mae cyfrifyddiaeth yn broffesiwn sy'n gonglfaen cymdeithas - hanfodol i helpu economïau, sefydliadau ac unigolion i dyfu a llewyrchu. Mae'r proffesiwn yn creu rheolaeth ariannol a busnes gadarn, y gellir ymddiried ynddi i ymladd llygredd, i sicrhau y caiff sefydliadau eu rheoli'n foesegol, gan ysgogi cynaliadwyedd, a darparu cyfleoedd gyrfa gwerth chweil.**

Gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid yw asgwrn cefn economi Cymru, gan alluogi twf, sefydlogrwydd ac arloesi ledled pob sector - o amaethyddiaeth a thwristiaeth i weithgynhyrchu a thechnoleg. Mae mwy o gydnabyddiaeth o'u rôl nid yn unig yn orddyledus - mae'n hanfodol i ddatblygu Cymru gydnerth, lewyrchus a all gystadlu ar y llwyfan byd-eang.

Mae'r proffesiwn cyfrifyddiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at yr economi. Ledled y Deyrnas Unedig, yn 2022, amcangyfrifwyd fod y proffesiwn wedi cyfrannu £80.7 biliwn tuag at Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y Deyrnas Unedig ac roedd yn gyfrifol am gyfraniad treth a amcangyfrifwyd oedd oddeuwtu £10.1 biliwn i Drysorlys y DU.[1]

1 CCAB-Accountancy-Report-WEB-2.pdf

Yn 2023, cyflogodd cwmnïau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol 63,000 o staff yng Nghymru a gwnaeth gyfraniad gwerth ychwanegol gros (GVA) blynyddol o £6.1biliwn tuag at yr economi.[2]

Ac yntau wedi'i sefydlu yn 1904, ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig) yw'r corff cyfrifyddiaeth broffesiynol byd-eang a'i ddiben yw hyrwyddo safonau mewn cyfrifyddiaeth a chyllid trwy'r byd i gyd, a sicrhau bod y proffesiwn yn rym er daioni cyhoeddus. Mae ein cymwysterau a'n cyfleoedd dysgu yn datblygu arweinwyr busnes strategol, gweithwyr proffesiynol blaengar eu bryd gyda'r arbenigedd ariannol, busnes a digidol sy'n hanfodol ar gyfer creu sefydliadau cynaliadwy a chymdeithasau ffyniannus.

Trwy'n cymhwyster a gydnabyddir yn fyd-eang, ein cynnwys arweinyddiaeth feddylgar, a'n gwasanaethau addysg, cynorthwywn aelodaeth amrywiol o dros 102,000 o aelodau a 70,000 o fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig. Yn fyd-eang, cynorthwywn dros 788,000 o aelodau a myfyrwyr ledled 180 o wledydd.

Yng Nghymru, mae gan ACCA gymuned ffyniannus o dros 6,400 o aelodau a myfyrwyr yn gweithio ymhob sector o'r economi – yn cynorthwyo busnesau a sefydliadau o bob maint.

Deallwn yr heriau sy'n wynebu llywodraethau, llunwyr polisi a busnesau o amgylch y byd, a gweithiwn law yn llaw â nhw i wneud ein rhan i lunio gwell dyfodol.

2 Galluogi twf ledled y DU 2025: Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol cysylltiedig a leolir yn y DU | TheCityUK



## Ein galwadau am weithredu i Lywodraeth nesaf Cymru:

- **Rhoi sylw i anghenion sgiliau, denu busnesau newydd a rhoi hwb i gynhyrchiant** trwy ehangu prentisiaethau ac ariannu darpariaeth cyrsiau byrion.
- **Rhoi hwb i dwf a chynhyrchiant yn economi Cymru** trwy fuddsoddi mewn seilwaith, cymorth busnes ac uchafu'r cyfleoedd gan Strategaeth Ddiwydiannol llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- **Gwella cynhyrchiant a thryloywder mewn cyllid cyhoeddus** trwy gyllid amlflwyddyn, a gwell cymorth i weithwyr arian proffesiynol.
- **Datblygu map ffordd eglur o weithredoedd ychwanegol i gynorthwyo busnesau**, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i fodloni uchelgais hinsawdd Cymru.

# Sgiliau a chymorth i yrfaoedd.

## Dawn: cynorthwyo datblygiad y proffesiwn ar gyfer y dyfodol

Mae'r galw am weithwyr ariannol proffesiynol yn parhau i fod yn gryf. Ledled yr economi ehangach, mae gwariant ar hyfforddiant wedi gostwng ymysg tirwedd sgiliau cymhleth lle mae cyflogwyr yn ei chael hi'n anodd llywio cyfleoedd a chyllid hyfforddi. Mae ar y dirwedd sgiliau a hyfforddiant angen ymateb yn fwy heini i ofynion sgiliau sy'n newid a rhoi cymhelliant i hyfforddiant. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

**Sgiliau Digidol** – Mae technoleg sy'n dechrau ymddangos yn alluogydd allweddol ar gyfer busnesau a'u cyfrifyddion, gyda'r potensial am gyfleoedd sylweddol o arloesi - rhan allweddol o hyn yw Deallusrwydd Artiffisial.

Canolbwyntio cymhelliannau hyfforddiant ar gyfer busnesau a'r gweithlu ar ganlyniadau hybu hyfforddiant, megis arwain y gorchwyl o fabwysiadu arloesi digidol, yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial moesegol.

**Sgiliau Gwyrdd** – Mae gan weithwyr proffesiynol ym maes cyfrifyddu rôl hanfodol mewn gwneud busnesau'n gynaliadwy, adrodd am y cynaliadwyedd hwnnw, ac aswirio'r adroddiadau cynaliadwyedd hynny – credwn yn gryf fod cyfrifyddiaeth yn 'sgil gwyrdd' ac yn llwyr deilwng o gyllid i adeiladu cynhwysedd yma yng Nghymru i gynorthwyo pob sector o'r economi.



- **Ehangu Prentisiaethau lefel uwch** i ddatblygu sgiliau lefel uwch, denu busnesau newydd i Gymru a rhoi mantais gystadleuol i Gymru o'i gymharu â Lloegr.
- **Symleiddio canllawiau a phrosesau i gyflogwyr** i wella cysylltiadau rhwng cyflogwyr, darparwyr a chyllid, i ymateb yn gyflymach i anghenion cyflogwyr.
- **Gwneud y broses yn haws ar gyfer cymeradwyo ac ariannu cyrsiau byrion** i sicrhau bod yr hyfforddiant mwyaf perthnasol a phriodol yn cael ei ddarparu.
- **Adolygu'r canllawiau gyrfaoedd a thirwedd cymorth yng Nghymru** i ganfod bylchau neu wendidau mewn darpariaeth, a sicrhau y caiff cynghorion a gwybodaeth eu darparu i bob dysgwr, ceisiwr gwaith, a phobl sy'n newid gyrfa fel y gallant ddeall eu hopsiynau a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.
- **Gwella cysylltiad cyflogwyr ar y farchnad lafur ar lefel ranbarthol**, yn cynnwys ymgysylltu â chyrff proffesiynol mewn grwpiau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol.

# Busnes Cynaliadwy – Tyfu'n Heconomi

## Creu economi ffyniannus mewn byd sy'n newid

Bydd cynorthwyo twf economaidd cyson, cynhwysol a chynaliadwy yn allweddol i dyfu economi Cymru. Ac eto, mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae ar fusnesau, yn enwedig busnesau bychain, angen cymorth ac anogaeth i fuddsoddi, arloesi, ehangu'u gweithlu a masnachu'n fyd-eang, fel erioed o'r blaen. Bydd ymagwedd fwy sicr, cyfnod hir i gynorthwyo ac i gymell yn allweddol i annog cwmnïau i lwyddo ac i roi hwb i gynhyrchiant busnesau Cymru.

**'...mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae ar fusnesau, yn enwedig busnesau bychain, angen cymorth ac anogaeth i fuddsoddi, arloesi, ehangu'u gweithlu a masnachu'n fyd-eang, fel erioed o'r blaen.'**



- **Buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol** i wella cysylltedd ledled Cymru i annog busnesau i leoli, i dyfu ac i aros yng Nghymru.
- **Sicrhau bod Cymru'n manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael trwy gyllid**, cymorth a mentrau ar gyfer y sectorau blaenoriaethol a nodwyd yn Strategaeth Ddiwydiannol llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Gwasanaethau Proffesiynol a Busnes.
- **Sicrhau y caiff cymorth busnes ei ariannu'n ddigonol** a darparu ystod lawn o wasanaethau sy'n ofynnol gan fusnesau.
- **Gwella ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â busnesau** ymhob sector allweddol o'r economi trwy fforwm busnes.
- **Sefydlu dyfodol cyllido diogel ar gyfer Banc Datblygu Cymru** i ganiatáu'r Banc i gynorthwyo rhoi benthyg ochr yn ochr â benthycwyr y sector preifat a Banc Busnes Prydain a gefnogir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.
- **Defnyddio enw da rhyngwladol Cymru i hybu masnach**, allforion a mewnfuddsoddi, yn cynnwys defnyddio asedau pŵer meddal Cymru a chysylltiadau'r Cymry ar wasgar i hybu'n proffil rhyngwladol ac i gynhyrchu cyfleoedd busnes.
- **Sicrhau y caiff buddiannau economi Cymru eu cydnabod** mewn trafodaethau masnach a gynhelir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a bod Llywodraeth Cymru yn archwilio rhagor o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd masnach ar lefel ranbarthol.

# Cyllid Cyhoeddus a Threth

## Ysgogi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd mewn cyllidau cyhoeddus gan osgoi cymhlethdod ac ansicrwydd trethi

Bydd angen rheolaeth effeithiol a chadarn ar ein cyllidau cyhoeddus i danategu moderneiddio a buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a diwallu disgwyliadau dinasyddion gan gyflawni atebolrwydd am wariant cyhoeddus.

- **Blaenoriaethu buddsoddi yn y sector cyhoeddus mewn technoleg, sgiliau a hyfforddiant i wella cynhyrchiant**, gwell darpariaeth gwasanaeth a darparu gwerth am arian ar gyfer buddsoddiad cyhoeddus.
- **Darparu mwy o sicrwydd cyllido i'r sector cyhoeddus trwy gyllidebau amlflwyddyn** i ddarparu sefydlogrwydd ar gyfer arloesi a thrawsnewid mewn cyflenwi gwasanaethau. Dylai cyllid gael ei gysylltu â mentrau i roi hwb i gynhyrchiant ac i annog cydweithredu ac arloesi.
- **Adeiladu ar egwyddorion symlrwydd, sicrwydd a sefydlogrwydd fel y sylfaeni ar gyfer cyfundrefn drethi gadarn**, ac ymrwymo i raglen o symleiddio trethi i annog arloesi, twf economaidd a chynorthwyo cymeriant trethi cadarn trwy gael gwared â rhwystrau i gydymffurfiad.
- **Diwygio'r gyfundrefn ardrethi busnes** i sicrhau gwell cydbwysedd o ardrethi ledled pob busnes, ac nid cosbi busnesau sy'n buddsoddi yn eu safleoedd/hadeiladau.





# Cynaliadwyedd

## Hyrwyddo trawsnewidiad cynaliadwy a theg i ffordd newydd o wneud busnes sy'n cyflawni gwell byd

Mae ACCA yn arwain y proffesiwn yn fyd-eang mewn ysbrydoli, addysgu a sicrhau bod cyfrifyddion proffesiynol yn ysgogwyr hanfodol o ddyfodol cynaliadwy ar gyfer busnes, cymdeithas a'r blaned. Mae gan gyfrifyddion proffesiynol rôl hanfodol mewn gwneud busnesau yn gynaliadwy, adrodd am y cynaladwyedd hwnnw ac aswirio'r adroddiadau cynaliadwyedd hynny. Er bod Cymru yn arweinydd mewn llawer agwedd o gynaliadwyedd, gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a thargedau sero net, mae yna yn ddi-os fwy i'w wneud i fodloni'n huchelgais o ran hinsawdd.

- Adeiladu ar Addewid Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru a Chynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd y Banc Datblygu trwy ddarparu mesurau cymorth ychwanegol ar gyfer busnes i helpu Cymru i ddiwallu'i huchelgais o ran hinsawdd.
- Mabwysiadu'r egwyddor 'Meddwl yn Fach yn Gyntaf' i sicrhau bod canllawiau a rheoliadau busnes yn gymesur, yn ymarferol ac yn gyraeddadwy i gwmnïau llai o faint.
- Ystyried sut y gall gweithwyr ariannol proffesiynol sector cyhoeddus Cymru gael rôl gryfach mewn adrodd am yr hinsawdd gan gyrff cyhoeddus i ysgogi newid trwy'r system gyfan.



# Cysylltiadau

## Ein Tîm Ymgysylltu Strategol yn y Deyrnas Unedig:

**Lloyd Powell** (Cymru)
lloyd.powell@accaglobal.com

**Susan Love** (Yr Alban)
susan.love@accaglobal.com

**Gemma Gathercole** (Lloegr)
gemma.gathercole@accaglobal.com

**Glenn Collins**
Pennaeth Ymgysylltu Technegol a Strategol, y Deyrnas Unedig
glenn.collins@accaglobal.com

# Cyfeiriadau a rhagor o adnoddau

Mae ACCA yn cyhoeddi cyfoeth o ymchwil ar bynciau yn gysylltiedig â chyfrifyddiaeth a chyllid, yn cynnwys dyfodol y proffesiwn, adrodd a moeseg gorfforaethol, cynaliadwyedd, a Deallusrwydd Artiffisial. Gallwch gyrchu'n hymchwil yma. Diolchwn i'n holl aelodau sy'n cyfrannu tuag at ein hymchwil yn barhaus, p'un ai trwy gymryd rhan yn ein Cymuned Mewnwelediad, cwblhau'n harolygon neu gymryd rhan yn ein trafodaethau bord gron.



# Ynglŷn ag ACCA

**Y ni yw ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig), yr unig wir gorff cyfrifyddiaeth broffesiynol byd-eang. Ers inni gael ein sefydlu yn 1904, buom yn chwalu rhwystrau i'r proffesiwn cyfrifyddiaeth. Heddiw, rydym yn falch o gefnogi cymuned amrywiol o dros 257,900 o aelodau a 530,100 o aelodau'r dyfodol mewn 180 o wledydd.**

Rydym yn ailddiffinio cyfrifyddiaeth. Caiff ein cymwysterau arloesol, ein dysg barhaus a'n mewnwelediadau eu parchu a'u gwerthfawrogi gan gyflogwyr ym mhob sector. Maent yn cyfarparu unigolion â'r arbenigedd busnes a chyllid a'r barnu moesegol i arwain ac ysgogi gwerth cynaliadwy mewn sefydliadau ac economïau trwy'r byd i gyd.

A ninnau'n cael ein tywys gan ein diben a'n gwerthoedd, rydym yn arwain y proffesiwn cyfrifyddiaeth ar gyfer byd sy'n newid. Gan ffurfio partneriaeth â llunwyr polisi, gosodwyr safonau, y gymuned sy'n rhoddi, addysgwyr a chyrff cyfrifyddiaeth eraill, rydym yn cryfhau ac yn datblygu proffesiwn sy'n canolbwyntio ar bobl, y blaned a llewyrch i greu gwerth i bawb.

Canfyddwch fwy o wybodaeth yn: **accaglobal.com**

ACCA

ACCA
The Adelphi
1/11 John Adam Street
London WC2N 6AU
United Kingdom

020 7059 5000

accaglobal.com

Cedwir pob hawl. Defnyddir gyda chaniatâd ACCA. Cysylltwch ag insights@accaglobal.com i gael caniatâd i atgynhyrchu, storio neu drawsyrru, neu i wneud defnyddiau cyffelyb eraill o’r ddogfen hon.

© ACCA, Mawrth 2026

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn yn unol â safonau hygyrchedd WCAG 2.2 AA. Fe’i dyluniwyd i fod yn hygyrch i ystod eang o ddarllenwyr, yn cynnwys y rheiny sy’n defnyddio technegau cynorthwyol. Os profwch unrhyw rwystrau o ran hygyrchedd, cysylltwch ag ACCA, os gwelwch yn dda, i ofyn am fformat gwahanol.

THINK AHEAD